**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf P-06-1332
Ein cyf HIDCC/00675/25

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Government.Committee.Business@llyw.cymru

17 Ebrill 2025

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Ebrill 2025 mewn perthynas â'r Ddeiseb P-06-1332 'Ariannu ymchwil brechlyn i amddiffyn gwiwerod coch rhag feirws marwol brech y gwiwerod'.

Yn eich llythyr, gofynnoch am wybodaeth am y pwyntiau canlynol ar ran y deisebydd:

1. Llawer mwy o fanylion ar yr hyn sy'n cael ei ddisgrifio "ar hyn o bryd ac yn amwys" fel 'yn fuan' o ran llinell amser.
2. Egluro a fydd y broses dendro yn agored i unrhyw barti fynegi diddordeb ynddi neu a fydd drwy wahoddiad yn unig, ac yn yr achos hwnnw sut y bydd gwahoddedigion yn cael eu dewis?
3. Esbonio pam hyd yma nid oes unrhyw swyddogion wedi cysylltu â'r Wildlife Ark Trust sy'n berchen ar yr hawliau deallusol i'r ymchwil cynharach ar frechlyn brech gwanedig 2012/13.

Mewn ymateb i bwynt 1:
Mae caffael yn broses gymhleth. Mae hyn er mwyn sicrhau bod diwydrwydd dyladwy yn cael ei ddilyn a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddyrannu'n gywir. Mae fy swyddogion yn gweithio ar gaffael cyflenwr addas cyn gynted â phosibl.

Mewn ymateb i bwynt 2:
Bydd y tendr yn dilyn proses System Brynu Ddeinamig (DPS) Llywodraeth Cymru. Felly, gofynnir i gyflenwyr sydd wedi'u cofrestru ar GwerthwchiGymru i fynegi diddordeb. Caiff gwahoddedigion eu dewis yn seiliedig ar eu portffolio a natur eu gwasanaethau, ac i sicrhau adolygiad annibynnol a gwrthrychol.

Mewn ymateb i bwynt 3:
Nod yr astudiaeth ddichonoldeb yw asesu'n annibynnol ac yn wrthrychol y posibilrwydd o ymchwil, gweithgynhyrchu, awdurdodi marchnata, a defnyddio'r brechlyn, yn ogystal â risgiau, buddion a chostau cysylltiedig. Mater i'r cyflenwr penodedig fydd penderfynu pwy i gysylltu â nhw yn ystod yr astudiaeth.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Unwaith eto, diolch am ysgrifennu ataf ar y pwnc pwysig hwn. Gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol ichi neu'n ceisio ateb eich ymholiad.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig